

7. Ar Noson Oer ym Methlehem

Darlleniad: Yna y daw allan wialen o gyff Jesse; a Blaguryn a dyf o'i wraidd ef. Ac ysbryd yr Arglwydd a orffwys arno ef; ysbryd doethineb a deall, ysbryd cyngor a chadernid, ysbryd gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd ... ac nid wrth olwg ei lygaid y barn efe, nac wrth glywed ei glustiau y cerydda efe. Ond efe a farn y tlodion mewn cyfiawnder, ac a argyhoedda dros rai llariaidd y ddaear mewn uniondeb ... a chyfiawnder fydd gwregys ei lwynau ef, a ffyddlondeb yn wregys ei arenau. A'r blaidd a drig gyda'r oen, a'r llewpard a orwedd gyda'r myn; y llo hefyd, a chenau y llew, a'r anifail bras, fyddant ynghyd, a bachgen bychan a'u harwain.

Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef; a gelwir ei enw ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd.

Gweddi: Diolch i ti ein Tad, am y Nadolig, a ninnau'n cofio gyda llawenydd am ddyfod Iesu Grist i'n byd ni yn faban ym Methlehem. Diolchwn unwaith eto i ti am anfon Iesu Grist i'n byd ac am iddo ddangos dy gariad mawr tuag atom a thuag at eraill. Diolch bod Iesu Grist yn dangos y ffordd i gofio a helpu eraill, am iddo wneud hynny ar hyd ei weinidogaeth. Bu iddo ddangos dy gariad at y tlawd a'r trist, y gwan a'r claf. Arwain ni, yn awyrgylch y Nadolig, i gofio am y newynog a'r amddifad, yr unig a'r trist, er mwyn i ninnau rannu rhoddion dy gariad. Yr wyt ti yn ein galw i rannu bwyd gyda'r newynog, cysuro'r trist, nerthu'r gwan a bod yn gwmni i'r unig. Rhyfeddwn fod dy gariad mor fawr i ddefnyddio rhai fel ni, yn Iesu Grist, i wneud dy waith mawr yn y byd. Arwain ni i roi ein hamser a'n doniau, yn wir, ein bywydau, yn anrhegion at dy wasanaeth di:

*Cymer Arglwydd, cymer fi
Byth, yn unig, oll, i Ti.*

Maddau i ni os ydym yn gadael i brysurdeb yr ŵyl beri i ni anghofio gwir neges y Nadolig, ac i ni bwysleisio mwynhau ein hunain gan anghofio dy alwad arnom bob amser i gofio eraill. Gweddiwn am i ti wrando a derbyn ein gweddi yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, sydd yn ein gwahodd i weddio gyda'n gilydd – 'Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd ...'

Llefarydd: Bu hefyd yn y dyddiau hynny fyned gorchymyn allan oddi wrth Augustus Cesar, i drethu'r holl fyd. Y trethiad yma a wnaethpwyd gyntaf pan oedd Cyrenius yn rhaglaw ar Syria. (Luc 2:1-2)

GOLYGFA 1 PALAS HEROD

- Morwyn: Eich Mawrhydi, y mae Cyreniws, rhaglaw Syria, yn dymuno eich gweld.
- Herod: Tyrdd ag ef i mewn ...
[*Cyreniws yn dod i mewn i'r ystafell*]
- Herod: Henffych well, Cyreniws. O ble ddaethost ti?
- Cyreniws: Oddi wrth Awgwstws Cesar, eich Mawrhydi.
- Herod: Beth yw dy neges?
- Cyreniws: Mae gennyf orchymyn oddi wrth Cesar.
- Herod: Beth yw hwnnw?
- Cyreniws: [*Yn rhoi sgrôl i Herod*]
Gorchymyn yw i drethu'r holl fyd sydd dan ei lywodraeth.
- Herod: [*Ar ôl darllen*] Os yw Awgwstws Cesar yn gorchymyn, rhaid i bawb ufuddhau.
- Cyreniws: Cyhoeddwyd drwy Jiwdea fod yn rhaid i bawb fynd i'w trethu, bob un i'w ddinas ei hun – a'r rhai o dŷ a thylwyth Dafydd fynd i Fethlehem.
- Herod: Felly y bydd, Cyreniws.
- Cyreniws: Ffarwél, eich Mawrhydi.
- Herod: Ffarwél.
- Llefarydd: A Joseff hefyd a aeth i fyny o Galilea, o ddinas Nasareth, i Jiwdea, i ddinas Dafydd, yr hon a elwir Bethlehem [*am ei fod o dŷ a thylwyth Dafydd*] i'w drethu gyda Mair yr hon a ddyweddiad yn wraig iddo, yr hon oedd feichiog.

(Luc 2:4-5)

GOLYGFA 2 CHWILIO AM LETY

- Mair: Joseff, rydw i wedi blino'n lân. Gad i ni orffwys. Weli di lety yn rhywle, lle gawn ni gysgu heno?
- Joseff: Mae golau croesawus i'w weld yn y llety acw, gad i ni guro ar y drws.
[*Mair a Joseff wrth y llety*]
- Joseff: Gawn ni aros yma heno? Rydan ni'n dau'n flinedig iawn ar ôl teithio o Nasareth.

Gŵr y llety: O Nasareth? Wel, mae'n ddrwg gen i, mae pob ystafell yma'n llawn, ond rwy'n fodlon i chi gysgu yn y stabl wrth ochr y tŷ gyda'r anifeiliaid.

Mair: O, diolch, fe fydd hynny'n iawn i mi a Joseff.

Joseff: Bydd, diolch. Tyrd i mewn i orffwys Mair.

Llefarydd: A bu, tra oeddynt hwy yno, cyflawnwyd y dyddiau i esgor ohoni. A hi a esgorodd ar ei mab cyntaf anedig, ac a'i rhwymodd ef mewn cadachau, ac a'i dododd ef yn y preseb, am nad oedd iddynt le yn y llety.

(Luc 2:6-7)

Llefarydd: Ac yr oedd yn y wlad honno fugeiliaid yn aros yn y maes ac yn gwylid eu praidd liw nos.

(Luc 2:8)

GOLYGFA 3 BRYNIAU UWCHBEN BETHLEHEM

Bugail 1: Mae hi'n noson oer heno, fechgyn.

Bugail 2: Ydy wir, mae angen clogyn tew ar noson fel hon.

Bugail 3: Dewch i eistedd fan yma i siarad. Mae'r defaid yn dawel iawn erbyn hyn.

[*Miwsig yn dawel i ddechrau, yna'n chwyddo 'Gloria in Excelsis Deo'*]

Bugail 3: Hei! Gwrandewch! Ydw i'n breuddwydio, neu ydach chi'n clywed miwsig hefyd?

Pawb: Ydan.

Bugail 1: 'Drychwch ar y golau yn yr awyr.

Bugail 2: O! Mae ofn arna i. Beth sy'n digwydd?

[*Pawb yn closio at ei gilydd*]

Angel 1: Peidiwch â dychryn. Rydan ni'n dod â newyddion da i chi.

Angel 2: Ganwyd i chwi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd yr hwn yw Crist yr Arglwydd.

Angel 3: Ewch i Fethlehem ac fe gewch weld yr Iesu yno yn gorwedd mewn preseb.

Angylion: [*Gyda'i gilydd*]

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw ac ar y ddaear, tangnefedd i ddynion ewylllys da.

[*Angylion yn canu ac yna'n gadael*]

Bugail 3: Wel, dyna olygfa hardd. Rhaid i ni fynd i Fethlehem i weld a yw'r hyn a glywson ni'n wir.

GOLYGFA 4 AR UN O FFYRDD BETHLEHEM

Adroddiad: 'Pe bawn i'n byw ym Methlehem', *Clychau'r Nadolig*.

Gŵr Doeth 1: Mae'r seren wedi aros fan acw.

Gŵr Doeth 2: Dydy e ddim yn edrych yn lle gwych iawn!

Gŵr Doeth 3: Nac ydy! Rwy'n credu mai stabl ydy e.

Gŵr Doeth 1: Lle od iawn i frenin fod!

Darlleniad: 'Carol y Crefftwr', Iorwerth C. Peate, *Nadolig y Beirdd*, gol. Alan Llwyd.

GOLYGFA 5 WRTH Y PRESEB

[*Mair yn canu i'w baban*]

Plant: 'Baban Mair (1)' – pennill cyntaf, *Clychau'r Nadolig*.

[*Plant yn canu*]

Angylion: 'Baban Mair (1)' – ail bennill, *Clychau'r Nadolig*.

[*Daw'r bugeiliaid at y crud*]

Bugeiliaid: Ai dyma lety baban Mair?

Gŵr y llety: Ie.

Bugeiliaid: Gawn ni weld y baban Iesu?

Mair a Joseff: Cewch. Dyma fe.

Bugail 1: Dyma fy nghôt wllân i ti.

Bugail 2: Dyma fy ffon i ti.

Bugail 3: Dyma oen bach i ti.

Bugeiliaid: 'Baban Mair (1)' – trydydd pennill, *Clychau'r Nadolig*.

[*Y doethion yn dod i mewn a phenlinio yn eu tro*]

Doethion: Ai dyma lety baban Mair?

Gŵr y llety: Ie.

Doethion: Gawn ni weld y baban Iesu?

Mair a Joseff: Cewch, dyma fe.

Gŵr Doeth 1: Dyma aur yn anrheg i'r Brenin Iesu.

Gŵr Doeth 2: Dyma thus yn anrheg i'r Brenin Iesu.

Gŵr Doeth 3: Myrr rof i i'r Brenin Iesu.

Doethion: 'Baban Mair (1)' – pedwerydd pennill, *Clychau'r Nadolig*.
 [*Plant, angylion, doethion, bugeiliaid, Mair a Joseff a gŵr y llety i ganu*]

GWEDDI NADOLIG:

Mair a Joseff: Deuwn atat ti
 Plygwn ger dy fron
 Iesu, rho i ni
 Ddydd Nadolig llon.

Bugeiliaid: Atat, faban Mair,
 Down o fro a bryn
 Wrth y gwely gwair
 Plygwn bawb yn syn.

Doethion: Rho dy seren lân,
 Uwch ein byd yn awr,
 Canwn ninnau gân
 Am dy gariad mawr.

Angylion
 a'r plant: I holl blant y byd
 Sydd o dan eu pwn,
 Dyro lety clyd
 Y Nadolig hwn.

Gŵr y llety: Lle mae cysgod nos
 Rho oleuni mwy,
 Dwg y wawrddydd dlos
 Heddiw atynt hwy.

Pawb: Gyda'r engyl glân
 Sy'n y nefoedd wen,
 Canwn ni ein cân
 'Mawl i ti, Amen.'

Llefarydd: Dyna ni wedi clywed hanes y Nadolig cyntaf unwaith eto. Mae'r stori'n gyfarwydd, ond beth, ddywedwch chi, yw ei neges i ni heddiw? Beth ddylai ein hymateb ninnau fod? Dylen ni lawenhau am fod Duw wedi anfon rhodd mor werthfawr â Iesu Grist i ni. Ond nid llawenhau drwy gân a geiriau'n unig, ond drwy roi i eraill yn ei enw ef.

Deialog:

1. Tra'n bod ninnau'n cael yr holl bethau rydan ni eisiau, mae yna filoedd ar filoedd o bobl yn marw o newyn y Nadolig yma.

2. Wyt ti'n cofio'r ffilm 'na welson ni am y miloedd heb fwyd a heb gysgod? Mae yna lawer felly y Nadolig hwn.

1. Eto, roedd y ffilm yn dweud bod digonedd o fwyd ar gyfer pawb, a digon dros ben, ond bod gormod gan rai a dim gan eraill.

2. Dyna ffordd dda o'i roi e! Fe glywais i am un teulu yn gosod lle ychwanegol wrth y bwrdd cinio Nadolig, ac i bob un oedd yn bwyta, roedden nhw'n rhoi gwerth beth oedd wedi ei fwyta ar y plât yn y lle gwag a'i anfon i Gymorth Cristnogol.

1. Syniad da! Os ydan ni'n credu yn ffordd Iesu Grist, mae hi'n anodd iawn i ni fwynhau'r Nadolig, a gwybod fod cymaint o bobl yn dioddef yn ein byd, a'i bod hi'n bwysig iawn i ni rannu rhoddion Duw i ni gydag eraill.

2. Ond mae Duw eisiau mwy, sef ein bod yn ein rhoi ein hunain yn anrhegion iddo; rhoi ein hamser i sôn am Iesu Grist, rhoi ein doniau i wneud ei waith a rhoi ein bywyd i wasanaethu Duw a pheidio â gadael i gyfle fynd heibio heb rannu a gweddïo a gwneud ein gorau dros eraill.

Darlleniad: Mathew 25:34-40

Pawb i ganu: 'Ar fore dydd Nadolig', *Glas Glas Blaned*.

DIWEDD